# Canllawiau i ymgeiswyr: Hydref 2026

## Ymddiriedolaeth Ynni Cymunedol Canolbarth Cymru (Windfall)

Amcan rhaglen Windfall (Ymddiriedolaeth Ynni Cymunedol Canolbarth Cymru) yw cysylltu enillion ynni adnewyddadwy ag adfywio cefn gwlad trwy brosiectau cynaliadwyedd yng nghymunedau'r canolbarth. Cyflawnwn hyn trwy ddarparu arian ar gyfer prosiectau cymunedol addas, gan ddefnyddio arian a ddarperir yn wirfoddol gan ddatblygwyr cynhyrchu ynni a datblygiadau eraill.

Ar hyn o bryd, daw'r arian sydd ar gael i Windfall (Ymddiriedolaeth Ynni Cymunedol Canolbarth Cymru) gan Amegni Ltd, sydd biau Ffermydd Wynt Carno. Mae cymorthdaliadau ar gael ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy a chamau effeithlonrwydd ynni, a phrosiectau addysgiadol a chynaliadwy, yng nghymunedau Maldwyn - gyda blaenoriaeth i ardaloedd cynghorau cymuned Carno, Caersws, Trefeglwys, Dwyriw, Llanbrynmair a Llanerfyl.

**Sylwch: o Orffennaf 2025 bu'n rhaid inni gau ceisiadau am brosiectau y tu allan i'r chwe chymuned a restrir uchod, hyd 2027.**

Mae gennym ragor o ddiddordeb mewn pwy sy'n cael budd o brosiectau nag ym mhle mae'r grŵp ymgeisiol wedi'i leoli. Felly er y rhoddir blaenoriaeth i sefydliadau sydd y tu mewn i'r chwe chymuned eu hunain, gall sefydliadau eraill sy'n *cyflawni* prosiectau yno ymgeisio hefyd.

Ni wnaeth neb wneud cais am grant yn rownd ymgeisio Gwanwyn 2026, felly mae'r Bwrdd wedi cyflwyno rhai newidiadau i'r meini prawf ar gyfer rownd Hydref 2026 hon. Gobeithiwn y bydd y rhain yn annog grwpiau cymunedol i gysylltu â ni. Rydym yn hapus i drafod eich syniadau cynnar gyda chi fel y gallwch wedyn benderfynu a ddylech wneud cais ffurfiol. Y prif newidiadau yw'r canlynol, ond darllenwch y ddogfen hon yn gyfan gwbl:

- Rydym bellach yn croesawu ceisiadau 'refeniw yn unig' yn ogystal â 'chyfalaf' neu fathau cymysg o wariant. Er enghraifft, mae'n debygol y bydd addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy sy'n gysylltiedig â gwaith ar diroedd ysgolion (er budd i natur) yn gynnig cymwys. Gweler 'Gweithgaredd Prosiect Cymwys', isod.
- Rydym yn disgwyl darparu grantiau hyd at uchafswm o £12,500 yn unig yn y rownd hon, er y gallem fynd hyd at £20,000 yn ôl ein disgresiwn.

*****

# Canllawiau i ymgeiswyr: Hydref 2026

**Llenwi'r ffurflen - SICRHEWCH FOD CHI'N DEFNYDDIO FERSIWN HYDREF 2026**

a) Mae rhai cwestiynau'n bwysicach ar gyfer prosiectau mwy neu gyfalaf nag ar gyfer rhai sy'n costio llai neu sydd yn geisiadau refeniw. Er enghraifft cwestiynau 3.1, 3.2, 3.3 3.5 a 3.11. Os ydych *yn sicr* bod cwestiwn yn amherthnasol i chi, ysgrifennwch 'Amherthnasol' neu 'Amh.'. Ond os nad ydych yn rhoi gwybodaeth y mae ei hangen gan y Panel Cymhorthdal, mae perygl y gwrthodir eich cais am y rheswm hwnnw. Os nad ydych yn sicr, gofynnwch i Hafren Gwy am ragor o arweiniad.

b) Defnyddiwch y Gymraeg neu'r Saesneg fel y mynnwch. Oni bai i chi ddweud wrthym fel arall, gohebwn â chi yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych.

**c) Cwestiynau 1.6 a 3.8 Amseru**

Mae 1.6 yn gofyn am y misoedd/blynyddoedd gwirioneddol pan fyddech chi'n gobeithio dechrau a gorffen. Gwyddom y bydd y rhain yn destun newid.

Mae 3.8 yn gofyn i chi enwi'r camau arwyddocaol yn y prosiect, ac amcangyfrif pryd y byddai pob un yn dechrau ac yn gorffen. Gall hyn fod ar ffurf "Mis 2" ac ati yn hytrach na misoedd gwirioneddol. Dylai rhif y Mis pan fydd y prosiect yn dod i ben gyd-fynd â hyd y cyfnod a ddarparwch yng Nghwestiwn 1.6.

**d) Cwestiwn 2.1 Statws Cyfreithiol**

Rhaid i bob ymgeisydd fod â chyfansoddiad ysgrifenedig sy'n disgrifio trefn y grŵp. Mae arnom angen gwybod a ydych wedi ei gofrestru â'r Comisiwn Elusennau, Tŷ'r Cwmnïau a/neu'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Bydd dewis o restr y gwymplen yn dweud wrthym ba un yr ydych wedi'i wneud, os unrhyw un, ac a ellir trin eich grŵp megis 'endid cyfreithiol' ar wahân i'w aelodau. Mae'r holl ddewisiadau a restrir yn dderbyniol gennym.
Efallai yr hoffech gyfeirio at y canllawiau sydd ar gael yn:
https://www.resourcecentre.org.uk/information/legal-structures-for-community-and-voluntary-groups/

**e) Cwestiwn 2.11 TAW**

Os ydych wedi ymgofrestru ar gyfer TAW, darparwch eich rhif cofrestru, os gwelwch yn dda. Os felly, bydd modd i chi hawlio yn ôl gan CThEF unrhyw TAW yr ydych wedi'i dalu i gyflenwr, felly ni fydd unrhyw gymhorthdal gennym ni yn cynnwys y swm hwnnw. Onid ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer TAW, mae modd inni ddarparu cost y gwaith gan gynnwys TAW.

Hyd 31 Mawrth 2027 (o leiaf), mae "camau arbed ynni" a osodir mewn eiddo lle mae pob gweithgaredd yn gyfreithiol elusennol wedi'u heithrio rhag TAW. Mae'r camau

hyn yn cynnwys paneli ynni haul, felly dywedwch wrth eich gosodwyr dichonol am eich statws elusennol (os yn berthnasol) cyn iddynt roi dyfynbris ichi.

Gweler: https://www.gov.uk/government/publications/vat-energy-saving-materials-relief

**f) Cwestiwn 3.6 Paneli solar (ffotofoltäig)**

Dylid ystyried yn ofalus sut i gael gafael ar baneli solar ffotofoltäig, gan fod rhai gweithgynhyrchwyr wedi'u cysylltu â chaethwasiaeth fodern. Yn achos paneli ynni haul a batris, gofynnwn eich bod chi, wrth geisio dyfynbris, yn gofyn i gyflenwyr ddweud o ble ddaw offer sydd i'w gosod, a'r deunyddiau sydd ynddynt, a sut mae'r cyflenwyr yn lleihau i'r eithaf y perygl fod y rhain yn gysylltiedig â llafur caethweision. Mae gan y blog hwn gan Big Solar Co-op ragor o wybodaeth am y pwnc.

*****

**Cymhwysedd Derbynwyr Cymhorthdal – Rhaid i ymgeiswyr fod**

- Yn sefydliad cyfansoddedig (gan gynnwys cymdeithasau anghorfforedig syml) â chyfrif banc;
- Ddim yn rhannu elw i fuddiannau preifat; ac
- Â modd ('clo asedau') sicrhau trosglwyddo asedau yn ôl i Windfall neu'r gymuned yn achos diddymiad.

**Gweithgaredd Prosiect Cymwys**

- Er budd cymunedau Maldwyn.
- Yn unol â phrif amcan Windfall, sef: "*Er budd y gymuned a diogelu'r amgylchedd er mwyn hyrwyddo a hwyluso ynni cynaliadwy ac effeithlonrwydd ynni.*"
- Yn ogystal, mae gan Windfall rym ariannu addysg a datblygu cynaliadwy trwy weithgareddau eraill nag ynni. Croesawa'r Ymddiriedolaeth unrhyw gais a all ddangos bod y prosiect yn unol â'n hamcanion. Y mae'r themâu canlynol, fodd bynnag, yn darlunio'r hyn y mae gennym ddiddordeb neilltuol ynddo:
    a. Cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Gallai gweithgareddau gynnwys gwaith paratoadol (gan gynnwys astudiaethau dichonoldeb a ffioedd) yn ogystal â gwariant cyfalaf.
    b. Effeithlonrwydd ynni / camau cwtogi galw.
    c. Mentrau carbon isel, cydranedig, cymunedol a theithio llesol.

d. Gweithgareddau addysgiadol tuag at ddatblygu cynaliadwy.

Os yw'r prosiect cyfan i'w weithredu fesul cam, crynhowch amseriadau, ariannu a chanlyniadau'r cam y bydd Windfall yn cyfrannu'n uniongyrchol ato.

Yn flaenorol, mae Windfall wedi ffafrio prosiectau sy'n gadael gwaddol ffisegol parhaol, fel paneli solar ar adeiladau cymunedol. Ar gyfer y rownd hon, byddwn hefyd yn croesawu cynigion nad ydynt yn cynnwys buddsoddiadau cyfalaf o'r fath, cyn belled â'u bod yn bodloni'r meini prawf a'r blaenoriaethau uchod, neu fel arall yn gwella gwydnwch y gymuned dan sylw.

Gallai enghreifftiau o wariant refeniw o'r fath gynnwys:

- ✓ Deunyddiau prosiect fel compost, baneri, ac offer bach
- ✓ Costau teithio a chyfieithu
- ✓ Hyrwyddo, argraffu a hysbysebu
- ✓ Lluniaeth a threuliau i wirfoddolwyr
- ✓ Amser staff, yn enwedig ar gyfer contractau tymor byr sy'n ymroddedig i'r prosiect. Byddai ceisiadau i gyfrannu at gostau cyflog staff craidd hefyd yn cael eu hystyried, ond byddai angen diffinio ei rôl yn y prosiect, yr amser a ddarperir, a dyddiad gorffen y fath gefnogaeth.
- ✓ Cyfraniadau at gostau cyffredinol fel rhent ac yswiriant.

**Ffactorau o fydd o gymorth i'r Bwrdd flaenoriaethu ei gefnogaeth i gais.**

- Cefnogaeth gymunedol eang ar gyfer y prosiect.
- Gwerth am arian.
- Budd addysgiadol gan gynnwys unrhyw gynlluniau codi ymwybyddiaeth ynghylch buddion ynni a datblygu cynaliadwy.
- Gwerth/datblygu economaidd lleol, fel cael nwyddau a gwasanaethau o fewn y canolbarth, neu ddatblygu menter gymdeithasol, er enghraifft. Adfywio cymunedol, fel sicrhau ffynhonnell enillion a fydd o gymorth i wneud y gymuned yn fwy cadarn a chydlynol, er enghraifft. Adfywio cymunedol, fel helpu pobl iau i aros yn yr ardal neu sicrhau ffynhonnell incwm a fydd yn helpu'r gymuned i ddod yn fwy gwydn a chydlynol.
- Faint o ynni a gynhyrchir neu na ddefnyddir bob blwyddyn o ganlyniad (lle bo'n berthnasol).

- Allyriadau carbon a gwtogir neu a osgoir (lle bo'n berthnasol).

**Amodau Safonol**

- Ar gyfer Hydref 2026, mae'r grant uchaf sydd ar gael wedi'i ostwng o £25,000 i £20,000.
- Fodd bynnag, dim ond os ydynt o ansawdd eithriadol y bydd ceisiadau am fwy na £12,500 yn cael eu cymeradwyo ar y lefel honno.
- Gall prosiect dderbyn sawl cymhorthdal gan Windfall os yw pob un cymhorthdal yn cyfrannu at gam penodol o'r prosiect.
- Croesewir cydariannu o ffynonellau eraill, ond nid yw'n hanfodol.
- Fel arfer, bydd cymhorthdal yn amodol ar sicrhau cymhorthdal o unrhyw ffynhonnell arall, a bod tystiolaeth i'r perwyl hwnnw, cyn rhoddir cymhorthdal Windfall.
- Ni ddefnyddir yr arian a roddir at unrhyw ddiben sy'n niweidiol neu'n groes i fuddiannau Windfall neu'i roddwyr.
- Rhaid i dderbynwyr cymhorthdal sicrhau hyrwyddo ffynhonnell yr arian yn gadarnhaol ym mhob cyhoeddusrwydd ynghylch y prosiect, gan gynnwys llechi coffáu neu'r cyffelyb a osodir ar eiddo.

**Beth yw amserlen debygol derbyn yr arian?**

- Gellir ariannu'n rhannol wedi derbyn y Llythyr Cynnig Cymhorthdal, os yw unrhyw amodau eraill wedi'u cyflawni, i'r graddau y mae angen blaendaliadau ac ati gan gontractwyr.
- Telir y gweddill, fel arfer, ar ddiwedd prosiect, gan gynnwys adroddiad byr i Windfall. Bydd Windfall, fesul achos, yn cadw canran fechan o'r cymhorthdal hyd nes y darperir adroddiad boddhaol.
- Gwneir taliadau cyfamserol lle bo angen.

**Sut mae ymgeisio**

Dylid e-bostio ceisiadau ac ymholiadau at yr Ysgrifenyddiaeth - grants@windfall.wales

# Canllawiau i ymgeiswyr: Hydref 2026

Cylchau a Chyfyngiadau Amser – gall y dyddiadau isod newid. Gwiriwch ddyddiadau ar wefan Windfall - https://www.windfall.wales/cy/ymgeisio/

| **Rownd yr Hydref 2026** | **Dyddiad** |
|---|---|
| **Hybysebu** | 3ydd o Awst 2026 |
| **Dyddiad Cau** | **12fed o Hydref 2026** |
| **Hysbysu ymgeiswyr o'r canlyniad** | Wythnos sy'n dechrau 16 Tachwedd |

Penderfynir gan Fwrdd Windfall.

Cyn gallu gwneud cynnig cymhorthdal terfynol, bydd angen darparu'r dogfennau canlynol ar gyfer Windfall. Gellir eu darparu wedi i gynnig amodol gael ei wneud, ond gwell fyddai eu darparu gyda'r cais.

- Ffurflen gais wedi'i llofnodi.
- O leiaf dau ddyfynbris neu amcangyfrif a gafwyd, onid yw amgylchiadau penodol yn golygu y gall un dyfynbris yn unig sicrhau cael y gwerth gorau.
- Dogfen gyfansoddiad ar gyfer y sefydliad a ddichon dderbyn y cymhorthdal, ac unrhyw ddogfennau ychwanegol ynglŷn â Chloi Asedau.
- Datganiad banc dim rhagor na 3 mis oed.
- Cyfrifon archwiliedig blynyddol neu gyfrifon rheoli anarchwiliedig / datganiad ariannol diweddar.
- Amserlen neu siart Gantt ar gyfer y prosiect.
- Lle bo'n berthnasol:
  - ✓ Unrhyw adroddiadau dichonoldeb technegol a gafwyd.
  - ✓ Unrhyw gytundebau les a gafwyd.
  - ✓ Unrhyw gytundebau ffurfiol â thirfeddianwyr a gafwyd.
  - ✓ Caniatadau neu drwyddedau a gafwyd.
  - ✓ Gohebiaeth neu gyngor ysgrifenedig ynghylch cael caniatâd cynllunio.
- Telerau ac Amodau wedi'u llofnodi.

Mae Windfall yn ddiolchgar am y bartneriaeth ers llawer dydd â'n rhoddwr presennol, Amegni Ltd, sydd biau Ffermydd Wynt Carno.

Diolch hefyd i Severn Wye am ddarparu'r Ysgrifenyddiaeth grantiau.

*Mid Wales Community Energy Trust is registered in Cardiff as a Company Number / Rhif: 0531 4240*
*Mae ymddiriedolaeth ynni cymunedol canolbarth cymru yn Gwmni cofrestredig yng Nhgaerdydd*